Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Llwyn Yr Eos

Dyddiad yr arolygiad: 15/06/2026

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae ethos gofalgar a chynhwysol wrth graidd Ysgol Llwyn yr Eos. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dwyieithog croesawgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, a lle mae eu lles yn cael ei flaenoriaethu'n llwyddiannus. Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ac maent yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o gymuned, gan sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da dros gyfnod.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r perthnasoedd gwaith cefnogol rhwng staff a disgyblion. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'u hanghenion emosiynol a'u hanghenion dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, cydweithio ac yn dangos parch am safbwyntiau a theimladau pobl eraill. Mae disgyblion hefyd yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd arwain sy'n eu helpu i ddatblygu medrau pwysig, yn cynnwys cyfathrebu, gwaith tîm a chyfrifoldeb.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu ysgogol sy'n adlewyrchu cyd-destun yr ysgol a'r gymuned yn llwyddiannus. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu at benderfyniadau am beth maent yn ei ddysgu, a sut. Yn gyffredinol, mae gweithgareddau'n diwallu anghenion disgyblion yn dda, er nad yw tasgau dysgu bob amser yn darparu digon o her i ychydig o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant yn hynod effeithiol. Mae staff yn modelu'r Gymraeg yn gyson ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion glywed, ymarfer a defnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd ystyrlon. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau siarad, darllen ac ysgrifennu yn dda yn y ffrydiau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, fel ei gilydd. Maent yn darllen yn hyderus, yn mwynhau llyfrau ac yn ysgrifennu'n bwrpasol ar draws ystod o genres ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn mathemateg ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu medrau digidol cryf sy'n cefnogi eu dysgu yn effeithiol. Yn aml, mae adborth llafar yn helpu disgyblion i ddeall pa mor dda y maent yn gwneud, ond nad yw adborth ysgrifenedig yn nodi'n gyson y camau nesaf mewn dysgu nac yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion wella'u gwaith.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder yn yr ysgol. Mae staff, yn cynnwys y rhai sy'n gweithio o fewn pedwar dosbarth canolfan adnoddau'r ysgol, yn darparu cymorth sydd wedi'i deilwro'n ofalus sy'n helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol.

Mae arweinwyr, staff a llywodraethwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol i gefnogi gwelliant ac yn gwneud defnydd priodol o dystiolaeth i nodi blaenoriaethau. Mae gwaith yr ysgol i wella presenoldeb yn cael effaith gadarnhaol, ar y cyfan, er bod presenoldeb ychydig o ddisgyblion, gan gynnwys rhai disgyblion o aelwydydd incwm isel, yn rhy isel o hyd.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn herio pob un o'r disgyblion yn gyson

A2 Sicrhau bod adborth yn cynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith yn effeithiol

A3 Gwella presenoldeb disgyblion

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/08/2026